Asesu cyflwr a gofynion gofal carnau y ceffyl

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys asesu cyflwr cyffredinol a gofynion gofal carnau y ceffyl er mwyn pennu cynllun gofal carnau. Mae'n hanfodol i gysur, lefel gweithgaredd a lles y ceffyl.

Er mwyn asesu cyflwr cyffredinol y ceffyl a'i ofynion gofal carnau, bydd angen i chi fynd at y ceffyl a'i drin mewn ffordd sy'n lleihau trallod a braw. Bydd angen i chi ddod o hyd i safle gweithio sy'n ddiogel i'r ceffyl ac unrhyw un arall sydd yn gysylltiedig â'r gwaith, yn cynnwys chi eich hun.

Bydd angen i chi arsylwi'r ceffyl tra'i fod yn llonydd ac yn symud. Bydd angen i chi drafod y cyflwr cyffrednol a lefel gweithgaredd ddymunol y ceffyl a chytuno ar y gofynion gofal carnau gyda'r person cyfrifol. Byddwch yn gwybod sut i asesu'r cyflwr a'r gofynion ar gyfer amrywiaeth o geffylau.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu eich dyletswydd gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid, codau ymarfer a pholisïau'r busnes.

Gall y person cyfrifol fod yn unrhyw un sydd â chyfrifoldeb dros y ceffyl fel y perchennog, hyfforddwr, gwas stabl neu ymarferydd gofal carnau.

Mae'r safon hon ar gyfer ymarferwyr Gofal Carnau Ceffylau y DU.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*